PRACTIS DDEINTYDDOL SIX GABLES

Taflen Wybodaeth i Gleifion | Crynodeb o'r Datganiad o Ddiben

Croeso i Bractis Deintyddol Six Gables. Mae'r daflen hon yn egluro'r gofal a ddarparwn, sut i gysylltu â ni, a'ch hawliau fel claf.

Ein practis a'n manylion cyswllt

Enw'r practis: Six Gables Dental Practice

Cyfeiriad: 27a Penlline Road, Whitchurch, Caerdydd, CF14 2AA

Ffôn: 02920 693664

E-bost: info@sixgablesdentalpractice.com

Rheolwr cofrestredig: Harlee Cave, Rheolwr y Practis

Manylion cyswllt proffesiynol y rheolwr cofrestredig: y cyfeiriad a'r rhif ffôn uchod; e-bost: harleesixgables@gmail.com

Darparwr cofrestredig: Six Gables Dental Practice LTD

Cyfeiriad, ffôn ac e-bost y darparwr cofrestredig: fel uchod.

Safle darparu gofal deintyddol: 27a Penlline Road, Whitchurch, Caerdydd, CF14 2AA

Ein tîm deintyddol

Mae ein tîm clinigol yn cynnwys deintyddion, hylenwyr deintyddol, nyrsys deintyddol a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol eraill. Rhestrir eu henwau, rhifau cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC), cymwysterau a phrofiad perthnasol isod.

Enw	Swydd / rhif GDC	Cymwysterau	Profiad
Dr Huw Bowen	Prif ddeintydd – 72998	BDS	29 mlynedd
Dr Rhys Thomas	Deintydd cyswllt – 85266	BDS	21 mlynedd
Dr Andrew Gardiner	Deintydd cyswllt / mewnblaniadau – 103486	BDS / MSc Mewnblaniadureg	20 mlynedd
Dr Sam Aboalkaz	Deintydd cyswllt – 295772	BDS	6 blynedd
Carly Perry	Hylenydd – 177200	Diploma mewn Hylendid Deintyddol	14 mlynedd
Emily Parker	Hylenydd – 272949	Diploma mewn Hylendid Deintyddol	5 mlynedd

Laura Green	Hylenydd – 253915	Diploma mewn Hylendid Deintyddol	8 mlynedd
Harlee Cave	Rheolwr cofrestredig / Nyrs ddeintyddol – 265928	Rheoli / Nyrsio / Radiograffeg	12 mlynedd
Cassie McCarthy	Rheolwr cynorthwyol / Prif nyrs – 281026	Nyrsio deintyddol	11 mlynedd
Hannah Colley	Prif nyrs / Nyrs ddeintyddol – 122798	Nyrsio deintyddol	16 mlynedd
Abbey Jenkins	Nyrs ddeintyddol – 299497	Nyrsio deintyddol	6 blynedd
Nelia Gouveia	Nyrs ddeintyddol – 139167	Nyrsio deintyddol	25 mlynedd
Charlotte Pritchard	Nyrs ddeintyddol – 14284	Nyrsio deintyddol	20 mlynedd
Sophie Edwards	Nyrs ddeintyddol – 3223108	Nyrsio deintyddol	3 blynedd
Cassey Crewe	Nyrs ddeintyddol – 339794	Nyrsio deintyddol	2 flynedd
Gemma Huntley	Derbynnydd	Amherthnasol	6 blynedd
Gabrielle Jarman	Derbynnydd	Amherthnasol	3 blynedd
Rebecca Cordwell	Nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant	Yn hyfforddi	2 flynedd

Triniaethau, cyfleusterau a gwasanaethau

Rydym yn cynnig asesiadau a thriniaethau deintyddol, yn amodol ar addasrwydd clinigol ac argaeledd. Gall y gwasanaethau gynnwys archwiliadau rheolaidd, cyngor ataliol, llenwadau, coronau, pontydd, gofal hylendid ac asesiadau deintyddol brys. Rydym hefyd yn cynnig triniaethau mwy cymhleth megis mewnblaniadau, sythu dannedd, triniaethau esthetig yr wyneb, bondio cyfansawdd a gwynnu dannedd.

Rydym yn darparu gofal deintyddol preifat a threfniadau Practice Plan. Mae mynediad at ofal y GIG yn dibynnu ar feini prawf presennol GIG Cymru a threfniadau'r Porth Mynediad Deintyddol. Byddwn yn egluro'r opsiynau, y ffioedd a'r cynlluniau triniaeth cyn dechrau gofal.

Ein cyfleusterau

Mae Practis Deintyddol Six Gables yn darparu amgylchedd croesawgar, cyfforddus a phroffesiynol i'n cleifion. Mae pedair deintyddfa â chyfarpar llawn yn y prif adeilad, ynghyd â deintyddfa ychwanegol ar wahân y tu allan i'r prif adeilad. Defnyddir hon ar gyfer apwyntiadau hylendid deintyddol ac apwyntiadau clinigol ychwanegol pan fo angen.

Mae gennym dderbynfa ac ardal aros benodol, ynghyd â chyfleusterau toiled. Mae'r holl ddeintyddfeydd wedi'u cyfarparu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol, ac mae gennym gyfleusterau penodol ar gyfer glanhau, dadheintio a sterileiddio offer deintyddol.

Rydym yn ceisio diwallu anghenion cleifion sydd angen cymorth ychwanegol, gan gynnwys anawsterau symudedd, clyw neu olwg. Rhowch wybod i'r dderbynfa am unrhyw anghenion penodol cyn eich ymweliad.

Oriau agor a gofal brys

Dydd Llun: 9:00–17:00 (ar gau 12:30–13:30)

Dydd Mawrth: 9:00–17:00 (ar gau 12:30–13:30)

Dydd Mercher: 9:00–17:00 (ar gau 12:30–13:30)

Dydd Iau: 9:00–17:00 (ar gau 12:30–13:30)

Dydd Gwener: 9:00–15:00

Gwasanaeth brys y tu allan i oriau: 0300 10 20 247

Yn ystod oriau agor, ffoniwch y practis os oes gennych argyfwng deintyddol. Byddwn yn asesu pa mor frys yw'r sefyllfa ac yn egluro'r gofal priodol sydd ar gael.

Y tu allan i oriau agor, ffoniwch 0300 10 20 247 neu GIG 111 Cymru / gwasanaethau perthnasol y bwrdd iechyd, a dilynwch gyfarwyddiadau'r neges wedi'i recordio. Os oes chwydd difrifol yn yr wyneb sy'n effeithio ar anadlu neu lyncu, gwaedu na ellir ei reoli neu anaf difrifol, ffoniwch 999 neu ewch i gael gofal brys.

Hawliau a chyfrifoldebau cleifion

Mae gennych hawl i ofal diogel a pharchus; esboniadau clir am opsiynau triniaeth, manteision, risgiau a chostau; cyfle i ofyn cwestiynau; cydsyniad cyn triniaeth; preifatrwydd; a gwybodaeth mewn fformat hygyrch lle bo hynny'n rhesymol bosibl.

Rhowch wybodaeth feddygol a manylion cyswllt cywir i ni; trinwch staff a chleifion eraill yn gwrtais; dilynwch gyngor gofal; talwch unrhyw daliadau perthnasol; a mynychwch eich apwyntiadau neu rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl os na allwch ddod. Gofynnwn am 48 awr o rybudd wrth ganslo lle bo modd. Bydd y polisi presenoldeb perthnasol ar gyfer y GIG neu Practice Plan yn cael ei egluro i chi.

Ymddygiad parchus a diogelwch

Nid ydym yn goddef trais, bygythiadau, aflonyddu nac iaith sarhaus tuag at staff neu gleifion. Gall staff ofyn i unigolyn roi'r gorau i'r ymddygiad, terfynu sgwrs neu apwyntiad pan fo'n ddiogel, cofnodi digwyddiadau a chysylltu â'r heddlu pan fo angen. Bydd unrhyw gyfyngiad neu derfyniad ar ofal yn cael ei ystyried yn deg, gan roi sylw i frys clinigol, diogelwch cleifion a rhwymedigaethau perthnasol y GIG neu ofal preifat.

Cwynion, canmoliaeth a barn cleifion

Rydym yn croesawu adborth wyneb yn wyneb, dros y ffôn, yn ysgrifenedig neu drwy e-bost. Gallwn hefyd gasglu barn drwy arolygon cleifion, ffurflenni adborth ac adolygiadau ar-lein, a defnyddio'r hyn a ddysgwn i wella ein gwasanaethau.

Cyswllt ar gyfer cwynion: Harlee Cave, Rheolwr y Practis, drwy fanylion cyswllt y practis uchod. Byddwn yn cydnabod, ymchwilio ac ymateb i gwynion yn unol â'n gweithdrefn gwyno ysgrifenedig a Rheoliad 21. Gofynnwch i'r dderbynfa am gopi o'r weithdrefn, gan gynnwys amserlenni ymateb a chamau uwchgyfeirio.

Cwynion y GIG: Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Pencadlys, Ysbyty Athrofaol Cymru, Parc y Mynydd Bychan, Caerdydd, CF14 4XW.

Cwynion am ofal preifat: Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Parc Busnes Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ. Ffôn: 0300 062 8162. E-bost: hiw@gov.wales.

Gall cleifion hefyd godi pryderon gyda Llais – Caerdydd a'r Fro. Ffôn: 029 2075 0112. E-bost: cardiffandvaleenquiries@llaiscymru.org. Cyfeiriad: Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned, 3ydd Llawr, 33–35 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9HB.

Dysgu a datblygu staff

Mae ein clinigwyr yn cynnal eu cofrestriad a'u datblygiad proffesiynol fel sy'n ofynnol gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Mae staff yn cael hyfforddiant sefydlu, hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swyddi, gan gynnwys atal heintiau, diogelu, argyfyngau meddygol a phynciau perthnasol eraill. Mae rheolwyr y practis yn adolygu cofnodion hyfforddi a goruchwyliaeth.

Mynediad a chyfathrebu

Rhowch wybod i ni cyn eich apwyntiad os oes angen cymorth arnoch gyda symudedd, clyw, golwg, iaith, cyfathrebu neu unrhyw angen hygyrchedd arall. Byddwn yn trafod addasiadau rhesymol a gwybodaeth hygyrch. Gallwch ofyn am gyfathrebu yn Gymraeg. Mae rampiau ar gael i gleifion ag anawsterau symudedd neu sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Mae lleoedd parcio gennym ar gyfer cleifion anabl yn unig. Gallwch ofyn am ddeintyddfa ar y llawr gwaelod os oes gennych anawsterau symudedd. Rhowch wybod i ni os oes angen gohebiaeth neu wybodaeth mewn print bras, Braille neu wasanaeth cyfieithu ar y pryd.

Cyfrinachedd a'ch cofnodion

Dim ond pan fo angen y caiff aelodau awdurdodedig o'r tîm deintyddol a gweinyddol, gweithwyr proffesiynol perthnasol sy'n darparu triniaeth a darparwyr gwasanaeth cymeradwy weld eich gwybodaeth, a hynny o dan fesurau diogelu cyfrinachedd a data priodol. Gellir hefyd ddatgelu gwybodaeth gyda'ch cydsyniad, pan fo angen ar gyfer gofal uniongyrchol, neu pan fo'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol neu'n caniatáu hynny. Mae gennych hawliau o dan gyfraith diogelu data'r DU, gan gynnwys gofyn am weld eich gwybodaeth bersonol, gofyn am gywiro gwybodaeth anghywir, a chael gwybod sut y defnyddir neu y rhennir eich gwybodaeth. Mae rhai hawliau yn ddarostyngedig i eithriadau cyfreithiol. Gofynnwch am ein hysbysiad preifatrwydd neu cysylltwch â rheolwr y practis i wneud cais neu godi pryder.

Adolygu a chymeradwyo’r daflen

Paratowyd: Hydref 2026 | Dyddiad adolygu: Hydref 2027 | Cymeradwywyd gan Harlee Cave